

Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021

Pwynt craffu technegol 1: *Hepgor pennawd pwnc ychwanegol*

Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar am gael gwybod am y mater hwn. Cytunwn y byddai'n dda o beth categoreiddio'r offeryn hwn o dan bennawd pwnc "LLYWODRAETH LEOL, CYMRU" yn ogystal â phennawd pwnc "Y GYMRAEG". Os bydd y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau caiff y pennawd pwnc ychwanegol ei gynnwys yn y fersiwn i'w llofnodi gan y Gweinidog.

Pwynt craffu technegol 2: *Cyfeiriad anghywir at bŵer galluogi yn y rhaglith*

Mae'r Llywodraeth o'r farn bod y pwerau a enwir yn gywir. Mae ail baragraff y rhaglith yn cyfeirio at is-adrannau (4) a (5)(l) (yn hytrach na "5(1)") o adran 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae paragraff (l) o is-adran (5) o adran 174 yn darparu bod rheoliadau o dan adran 84(2) o'r Ddeddf (rheoliadau sy'n diwygio deddfiadau eraill at ddibenion Rhan 5, Cyd-bwyllgorau Corfforedig) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn unol ag is-adran (4) o'r adran honno. Adran 84(2) yw'r prif bŵer galluogi a enwir ym mharagraff cyntaf y rhaglith.

Pwynt craffu ar rinweddau 1: *Cyfeiriad anghywir at yr awdurdod ar gyfer defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol yn y Memorandwm Esboniadol*

Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar am gael gwybod am yr amryfusedd hwn. Mae'r Memorandwm Esboniadol wedi ei ddiweddarau er mwyn newid y cyfeiriad gwallus.

Government Response: The Corporate Joint Committees (Amendment of Schedule 6 to the Welsh Language (Wales) Measure 2011) Regulations 2021

Technical Scrutiny point 1 : *Omission of additional subject heading*

The Government is grateful for notice of this issue. We agree that there would be merit in this instrument being categorised under the subject heading of “LOCAL GOVERNMENT, WALES” in addition to the subject heading “WELSH LANGUAGE”. If the Regulations are approved by the Senedd the additional subject heading will be included in the version to be signed by the Minister.

Technical Scrutiny point 2 : *Incorrect citation of enabling power in the preamble*

The Government considers the cited powers to be correct. The second paragraph of the preamble refers to subsections (4) and (5)(l) (as opposed “5(1)”) of section 174 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021. Paragraph (l) of subsection (5) of section 174 provides that regulations under section 84(2) of the Act (regulations amending other enactments for the purposes of Part 5, Corporate Joint Committees) are subject to the affirmative procedure in accordance with subsection (4) of that section. Section 84(2) is the main enabling power cited in the first paragraph of the preamble.

Merit Scrutiny point 1 : *Incorrect reference to the authority for use of affirmative procedure in the Explanatory Memorandum*

The Government is grateful for notice of this oversight. The Explanatory Memorandum has been updated to replace the erroneous reference.